



DESIGN  
COMMISSION  
FOR WALES  
COMISIWN  
DYLUNIO  
CYMRU

# Ymgynghori â'r Comisiwn drwy'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau

Ymgynghori â'r  
Comisiwn drwy'r  
Gwasanaeth  
Adolygu Dyluniadau

---

# Tabl cynnwys

<b>1</b>	<b>Cyflwyniad</b>
<b>2</b>	<b>Ynghylch Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau Comisiwn Dylunio Cymru</b>
2.1	Nodau'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau
2.2	Pa brosiectau sy'n elwa fwyaf?
2.3	Pam ymgynghori â'r Comisiwn?
2.4	Ein hymagwedd
2.5	Ein pobl
<b>3</b>	<b>Dechrau arni</b>
3.1	Ystyried materion dylunio yn gynnar ac yn barhaus
3.2	Cofrestru eich prosiect
3.3	Ymweliadau safle
3.4	Y cyfarfodydd adolygu
3.5	Polisi canslo
<b>4</b>	<b>Paratoi ar gyfer cyfarfodydd Adolygu Dyluniadau</b>
4.1	Deunyddiau y gofynnir amdanynt ymlaen llaw
4.2	Beth fyddwch chi eu hangen ar y diwrnod
4.3	Pwy ddylai fynychu?
4.4	Sut fydd y cyfarfod yn cael ei strwythuro?
4.5	Sylwadau ysgrifenedig
4.6	Gwybodaeth ychwanegol
<b>5</b>	<b>Sylwadau, cyfrinachedd a chyhoeddusrwydd</b>
<b>6</b>	<b>Dogfennaeth</b>
<b>7</b>	<b>Gweithdrefnau 'galw i mewn' Llywodraeth Cymru ac Ymchwiliadau Cynllunio Arolygiaeth Gynllunio Cymru a Lloegr</b>
<b>8</b>	<b>Gwrthdaro buddiannau</b>

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn hyrwyddo gwaith dylunio da ac yn cyfleu ei fanteision, ar draws sectorau, i helpu i wneud Cymru yn le gwell.

Mae'r Comisiwn yn blaenoriaethu ansawdd dylunio'r amgylchedd adeiledig - lleoedd, adeiladau a mannau cyhoeddus - yng Nghymru.

Mae'r Comisiwn yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ein holl weithgareddau, sy'n ymateb i'n nodau strategol a ddisgrifir yn ein Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu, sef:

- Cefnogi *safonau uchel o ddylunio a phensaernïaeth* yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yng Nghymru drwy hyrwyddo dealltwriaeth well o faterion yn ymwneud â dylunio a *phwysigrwydd safonau da ar gyfer gwella'r amgylchedd adeiledig* ymhob sector.
- Hyrwyddo arferion dylunio sy'n gydnaws â Chynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, gan *hyrwyddo arferion gorau ym meysydd gwaredu gwastraff a chludiant cyhoeddus*.
- Hyrwyddo arferion dylunio sy'n gydnaws â'r safonau uchaf yng nghyswllt *cyfle cyfartal a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol*.
- Rhoi sylw dyladwy i hyrwyddo *rhagoriaeth mewn datblygiadau cyffredin*, fel stadau tai ac unedau diwydiannol, yn ogystal â hyrwyddo rhagoriaeth mewn prosiectau sy'n dwyn bri.

Mae'r Comisiwn yn darparu Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau cenedlaethol, sy'n annog ymgynghori ar geisiadau datblygu ledled Cymru. Ein nod yw ceisio ymgynghori ar y cam cynnar i ychwanegu gwerth drwy ddyluniad da, ac i optimeiddio ansawdd y dylunio yn nhermau dylunio trefol a thirwedd cynaliadwy, pensaernïaeth a dylunio seilwaith.

Mae'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau yn darparu cyfleoedd strategol cynnar a chyn gwneud ceisiadau ar gyfer cleientiaid, dylunwyr, datblygwyr, Awdurdodau Cynllunio Lleol ac eraill, i gael barn annibynnol ac i dynnu ar arbenigedd amlddisgyblaethol y Comisiwn ar y camau cynharaf, er mwyn ychwanegu gwerth a gwella ansawdd y dylunio ar gyfer ceisiadau datblygu.

Cylch gwaith Comisiwn Dylunio, a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, yw hyrwyddo ansawdd dylunio ar draws pob sector. Argymhellir ymgynghori'n gynnar â'r Comisiwn ym *Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio, (TAN 12)*, yn y canllaw ymarferol *Gwireddu Potensial Trafodaethau cyn gwneud Ceisiadau Cynllunio*, ac yn y ddogfen *Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy*. Gallwch ddod o hyd i ddolenni i'r dogfennau hyn ar ddiwedd y cyhoeddiad hwn.

---

Mae'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau yn darparu ar gyfer proses ymgysylltu hyblyg, adeiladol a strategol sy'n cael ei chydabod fel proses gadarn ac awdurdodol. Ers 2003, mae tîm amlddisgyblaethol y Comisiwn wedi ymgynghori ar tua 700 o brosiectau o wahanol faint, ar draws Cymru.

Mae'r Comisiwn yn gweithio i godi pwysigrwydd am ystyriaethau dylunio a'u goblygiadau, wrth weithredu ceisiadau datblygu, er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu lleoedd wirioneddol gynaliadwy a chymdogaethau da sy'n helpu i wella ffyniant, lles ac ansawdd bywyd.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch os ydych yn ymgynghori â'r Comisiwn ac yn paratoi ar gyfer cyfarfod Adolygu Dyluniadau.

Rydym yn hapus i helpu gydag unrhyw gwestiynau neu i ddarparu gwybodaeth bellach, felly cysylltwch â ni drwy e-bostio [connect@dcfw.org](mailto:connect@dcfw.org) neu drwy ffonio **+44 (0) 29 2045 1964**.

## Ynghylch Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau Comisiwn Dylunio Cymru

Mae Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau Comisiwn Dylunio Cymru yn cynnig hyblygrwydd o ran sut y gallwch chi ymgynghori â ni ynghylch eich cynigion. Byddwch yn dod o hyd i ragor o fanylion am hyn a sut i gysylltu â ni trwy gydol y cyhoeddiad hwn, ynghyd ag esboniad o sut mae'r gwasanaeth yn gweithio, ei nodau a'i fanteision.

### Nodau'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau

Mae'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau yn caniatáu i gynlluniau a cheisiadau datblygu ledled Cymru gael eu hystyried gan dîm amlddisgyblaethol, annibynnol, arbenigol Comisiwn Dylunio Cymru.

Nod y Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau yw cynorthwyo Awdurdodau Cynllunio Lleol, awdurdodau cyhoeddus ac asiantaethau eraill i gefnogi dyhead ac uchelgais ar gyfer ansawdd dylunio da, cynaliadwy, cryfhau eu canllawiau dylunio eu hunain, ac adolygu eu hymagwedd at gaffael ac arferion datblygu. Mae'r gwasanaeth hefyd yn ceisio helpu i adnabod cyfleoedd cynnar ar gyfer ansawdd dylunio da mewn cynigion datblygu, ac yn helpu Awdurdodau Lleol i sicrhau ansawdd dylunio yn y system gynllunio.

Mae'r gwasanaeth ar gael i ddatblygwyr, dylunwyr, awdurdodau cynllunio, rhanddeiliaid a chyrrff cyhoeddus eraill, grwpiau cymunedol neu aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno cael barn arbenigol annibynnol, a manteisio ar arbenigedd y Comisiwn.

Mae'r Comisiwn yn ymgynghorai anstatudol, ond mae ei sylwadau yn cynrychioli ystyriaethau perthnasol ym mhenderfyniadau'r awdurdod cynllunio lleol ar geisiadau cynllunio. Mae sylwadau'r Comisiwn yn cael eu cydnabod fel bod yn awdurdodol gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru a Lloegr. Mae ymgynghori'n gynnar â'r Comisiwn yn cael ei argymhell mewn polisi cynllunio cenedlaethol ac mewn canllawiau ymarfer cysylltiedig.

## 2.2

### Pa brosiectau sy'n elwa fwyaf?

Mae'r Comisiwn yn blaenoriaethu cynlluniau sydd yn:

- Arwyddocaol oherwydd eu maint neu eu heffaith gyhoeddus
- Arwyddocaol oherwydd eu safle
- Â mwy o bwysigrwydd na fyddai eu maint, defnydd neu safle'n awgrymu
- Enghreifftio problemau dylunio parhaus sy'n wynebu datblygwyr, Awdurdodau Cynllunio Lleol neu grwpiau cymuned neu gymdogaeth

Mae Tîm Adolygu Dyluniadau CDC yn ystyried prosiectau sy'n amrywio o ran math a maint ledled Cymru gan gynnwys:

- Safleoedd Strategol; Prif gynlluniau / fframweithiau dylunio trefol
- Adnewyddu pentref, tref a chanol y ddinas
- Prosiectau Tir Cyhoeddus a thirwedd
- Treftadaeth, cadwraeth a darpariaeth ddiwylliannol
- Adeiladau unigol; datblygiadau defnydd preswyl a chymysg
- Gofal lechyd, ysgolion, adeiladau gwasanaethau i'r cyhoedd (llysoedd barn, yr heddlu ac ati)
- Trafnidiaeth a phrosiectau seilwaith ynni

## 2.3

### Pam ymgynghori â'r Comisiwn?

“Roedd ein hymgysylltiad â CDC yn greadigol ac yn gydweithredol yn ystod pob cam o'r broses. Roedd y drafodaeth yn y cyfarfod adolygu yn ddiddorol iawn, ac arweiniodd at newidiadau yn cael eu gwneud i'r dyluniad y mae'r cynllun wedi elwa ohonynt. Mwynhaom y drafodaeth, ac roeddem yn meddwl ei fod yn enghraifft dda o sut y gall Comisiwn Dylunio Cymru helpu.”

**Alun Jones - Dow Jones Architects ar gyfer Maggie's South East Wales**

Mae'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau yn hwyluso mynediad at fewnbwn dylunio arbenigol a fydd yn darparu:

- Sylwadau a chyfleoedd proffesiynol annibynnol ar gyfer gwella ac ychwanegu gwerth
- Arbenigedd na allai fod ar gael i dîm y prosiect, yr awdurdod cynllunio lleol neu i randdeiliaid, a allai amlygu cyfleoedd sydd heb eu gweld o'r blaen
- Sail resymegol ar gyfer penderfyniadau cynllunio a chaffael
- Gwybodaeth am brosiectau datblygu blaenorol a chyfredol yng Nghymru a allai helpu i gydlynu a rhannu gwybodaeth

Bydd ymgynghori â'r Comisiwn yn gynnar yn sicrhau bod yr arbenigedd sy'n cael ei gyfrannu drwy Gomisiwn Dylunio Cymru yn rhan adeiladol o'r broses ddylunio.

Mae'r Canllaw Arfer: Gwireddu potensial trafodaethau cyn gwneud ceisiadau cynllunio a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2012, yn tynnu sylw at wasanaethau ymgynghori cynnar CDC ac at ein gwasanaeth Adolygu Dyluniadau:

'Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn darparu gwasanaeth adolygu dylunio am ddim, sy'n fodd i ymgynghori â'i banel o arbenigwyr annibynnol ar gam cynnar. Mae'r Comisiwn hefyd yn cyhoeddi astudiaethau achos ac yn llunio canllawiau arfer da ar faterion sy'n ymwneud â dylunio, a all fod yn ddefnyddiol i drafodaethau cyn ymgeisio.' (t 13)

Trafodaethau adolygu dyluniadau ar waith.





## Ein hymagwedd

Mae'r Comisiwn yn adnabod ac yn hyrwyddo dylunio cynaliadwy o ansawdd uchel mewn dylunio pensaernïaeth, trefol a tirwedd.

Rydym yn chwilio am dystiolaeth bod ystyriaethau dylunio trefol a thirwedd wedi eu harchwilio'n llawn ochr yn ochr â dyluniad adeilad, er mwyn sicrhau bod datblygiad yn ymateb i'w safle ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ei gyd-destun a'i gymuned.

Mae ymagwedd y Comisiwn at werthuso yn cael ei lywio gan Bolisi Cynllunio Cymru Argraffiad 7 (2014), a Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (TAN 12: Dylunio 2014). TAN 18 (Trafnidiaeth 2007), ac mae'r Llawlyfr Strydoedd Cyfrolau I a II hefyd yn ymrwmo i ddylunio da yn y broses gynllunio. Mae'r Comisiwn felly, yn ceisio annog a hyrwyddo datblygiad:

- Sy'n gynaliadwy o ran ei effaith amgylcheddol cyffredinol, gan gynnwys lleoliad, defnydd tir, cymysgedd o ddefnyddwyr terfynol, defnydd o adnoddau ac effaith ar y gymuned
- Sy'n meddu ar weledigaeth ddylunio glir ac sy'n ymateb yn gadarnhaol i safle, cyd-destun a hynoddrwydd lleol, ac sy'n atgyfnerthu ymdeimlad o le
- Sy'n creu strydoedd a manau cyhoeddus sy'n hygyrch, diogel, cyfforddus, deniadol a pharhaus, ac sy'n hawdd i bob defnyddiwr gael mynediad atynt a dod o hyd i'w ffordd o gwmpas
- Sy'n cynnwys amrywiaeth o ddefnyddiau a deiliadaethau gyda chrynodder sy'n gallu meithrin y gwasanaethau angenrheidiol, cyfleusterau amwynder a chlodiant cyhoeddus
- Sy'n cynnwys adeiladau a manau hyblyg ac addasadwy sy'n creu pensaernïaeth gywrain, trefluniau cyfoethog a thirluniau manwl, gyda deunyddiau o ansawdd da.

Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell gwneud y mwyaf o werth 'oes gyfan' datblygiad, drwy hybu dylunio cynaliadwy sydd:

- Yn atgyfnerthu cydlyniant cymdeithasol
- Yn cyfrannu at ffyniant economaidd
- Yn lleihau effaith negyddol ar yr amgylchedd

Rydym yn annog dulliau adeiladu a gwasanaethau adeiladu effeithlon o ran ynni, y defnydd o olau dydd ac awyru naturiol, a deunyddiau lleol, adnewyddadwy, o ansawdd uchel lle bynnag posibl. Rydym yn cefnogi cyfranogiad y cyhoedd yn y broses ddylunio.

“Roedd proses adolygu dyluniadau CDC yn ddefnyddiol i ddatrys rhai o'r materion uwchgynllunio a wynebwr gan Forlyn Llanw Bae Abertawe, ac i sicrhau canlyniad dylunio gwell yn gyffredinol. Roedd tîm CDC yn gyfeillgar, gwybodus a chefnogol.”

**Alex Herbert - Morlyn Llanw Bae Abertawe**

Mae'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau yn cynnwys tîm o tua 30 o ymarferwyr proffesiynol, ac mae gan bob un eu harbenigedd eu hunain.

Mae proffil amlddisgyblaethol y tîm hwn yn golygu bod amrywiaeth o brofiad ar gael gan gynnwys pensaernïaeth, dylunio trefol, datblygu eiddo masnachol, tirwedd, trafndiaeth, peirianeg sifil a strwythurol, cynllunio, gwasanaethau adeiladu, ynni a chynaliadwyedd.

Mae rhestr o aelodau'r panel yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan yn [dcfw.org](http://dcfw.org)



Aelodau'r panel, timau dylunio a datblygwyr yn trafod mewn cyfarfod adolygu.

Mae'r Panel Adolygu Dyluniadau yn cael eu penodi trwy gais cystadleuol a chyfweliad, am gyfnod o ddwy flynedd. Nid yw'r panel yn cael eu talu a chyda'i gilydd, maen nhw'n darparu cefnogaeth sector preifat sylweddol i waith y Comisiwn.

Mae ail-benodi aelodau i'r panel yn amodol ar adolygiadau unigol bob dwy flynedd, er mwyn cynnal ansawdd y gwasanaeth a sicrhau cydbwysedd o arbenigedd perthnasol. Mae'r broses benodi yn cael ei monitro a'i harfarnu gan arbenigwr recriwtio allanol.

Fel ymarferwyr cyfredol, mae aelodau o dîm y Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau yn diweddarau eu gwybodaeth a'u harbenigedd yn gyson. Fodd bynnag, mae CDC hefyd yn darparu hyfforddiant a datblygiad, ac yn arfarnu profiad, er mwyn gwella a mireinio'r gwasanaeth a'r broses adolygu drwy'r amser, a sicrhau ein bod yn hyddysg iawn ac yn ymwybodol o arloesedd ym maes dylunio, datblygu, cynllunio ac ymarfer datblygu cynaliadwy, rheoliadau, polisiau a chanllawiau, a materion perthnasol eraill sy'n gymwys i waith CDC ledled Cymru.

Cyn i chi gwrdd â ni yn yr adolygiad ei hun, byddwn yn penodi un o'r arbenigwyr hyn i arwain yr adolygiad o'ch prosiect. Byddant yn ymweld â'r safle ac yn astudio unrhyw ddeunydd rydym wedi eu derbyn cyn y cyfarfod, gan nodi materion dylunio allweddol.

---

## 3

## Dechrau arni

### 3.1

### Ystyried materion dylunio yn gynnar ac yn barhaus

Mae angen bod yn ymwybodol o ychydig o bwyntiau pwysig wrth ymgynghori â'r Comisiwn:

- Y cam cyntaf yw cysylltu â ni yn gynnar a chofrestru eich prosiectau. Rydym yn egluro mwy am hyn isod.
- Mae ymgysylltu'n gynnar yn hanfodol er mwyn gwneud y mwyaf o fanteision y Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau. Mae'r arbenigedd sydd ar gael drwy'r Comisiwn yn gallu bod fwyaf effeithiol ac ychwanegu'r gwerth mwyaf pan mae'r cais ar y cam lluniol. Fel arfer, bydd hyn yn gynnar yn y cyfnod cyn cyflwyno cais, tua hanner ffordd drwy safon Cam 2 RIBA (Dylunio Cysyniad), unwaith y bydd y dull dylunio sylfaenol wedi cael ei ddiffinio.
- Ar gyfer safleoedd strategol, prosiectau mwy, NSIPs (Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol), cludiant neu seilwaith arall, rydym yn argymhell trefnu cyfarfod cwmpasu cynnar i sefydlu natur ac anghenion y prosiect, yr amserlen rydych chi'n gweithio oddi mewn iddi, a sut y gall y Comisiwn helpu orau. Yn dibynnu ar natur y ceisiadau, gallai hyn arwain at dri neu fwy o gyfarfodydd, er mwyn caniatáu ar gyfer cefnogaeth tymor hirach a mynediad at arbenigedd y Comisiwn. Gall awdurdodau lleol hefyd ddefnyddio'r gwasanaeth i brofi prif gynlluniau, a / neu gyfleoedd datblygu strategol.
- Mae prosiectau llai yr un mor bwysig i ni, ac rydym yn annog ymgynghori cyn gynted ag y bo modd. Mae arwyddocâd prosiect, neu ei effaith, yn gallu rhoi camagraff o'i faint. Mae prosiectau cymunedol, a cheisiadau preswyl neu dirwedd bach hefyd yn elwa o fewnbwn y Comisiwn.
- Mae'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau yn hyblyg, ac er bod nifer fach o gyfarfodydd yn cael eu cynllunio ymlaen llaw bob mis, rydym yn ychwanegu at y rhain yn rheolaidd, i ddarparu ar gyfer prosiectau mewn modd amserol ac er mwyn caniatáu ar gyfer ymgysylltu dros y tymor mwy.

Mae'r Comisiwn yn croesawu ymgysylltu dros y tymor mwy, a gallai adolygu prosiect sawl gwaith drwy ei broses dylunio a datblygu. Mae croeso i dimau ddychwelyd pan mae'n amlwg y byddai adolygiadau ychwanegol yn ddefnyddiol.

Y ffactor pwysicaf ar gyfer unrhyw brosiect yw ymgynghori'n gynnar gyda'r Comisiwn. Mae camau cynnar dylunio datblygiad a gwneud penderfyniadau yn cynnig y cyfleoedd mwyaf ar gyfer sicrhau ansawdd da, ychwanegu gwerth ac yn osgoi'r costau o ail-weithio neu wneud newidiadau yn nes ymlaen. I ddechrau, rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn ein ffonio neu yn anfon e-bost atom, fel y gallwn gofrestru eich prosiect a thrafod yr hyn sydd orau i chi ar sail natur y cynllun.

---

## 3.2

### Cofrestru eich prosiect

Y cam cyntaf yn y broses yw cofrestru eich cynllun gyda ni er mwyn inni gael gwybodaeth sylfaenol am y cais a deall ei natur, statws ac amserlenni cynllunio. Ffoniwch neu e-bostiwch ni cyn gynted â phosib i gael dogfen gofrestru. E-bost [connect@dcfw.org](mailto:connect@dcfw.org) neu Rif ffôn +44 (0) 29 2045 1964.

Unwaith y byddwn yn derbyn dogfen gofrestru wedi'i chwblhau, byddwn yn cysylltu â chi am eich prosiect, i ddarganfod faint o amser a faint o gyfarfodydd efallai y byddwch eu hangen, fel y gellir trefnu hyn ymlaen llaw i ymateb i raglen eich prosiect.

*Noder: Ni allwn wneud unrhyw drefniadau nes bod y cynllun wedi ei gofrestru. Cwblhau a dychwelyd eich cofrestriad yw'r cam cyntaf sydd angen ei wneud.*

## 3.3

### Ymweliadau Safle

Cyn gynted ag y bydd eich prosiect wedi ei gofrestru a'ch bod chi wedi cael dyddiad / au cyfarfod, byddwn yn cysylltu ag un o'n tîm a fydd yn cynnal ymweliad safle. Dylech roi manylion cyswllt a gwybodaeth am gyfyngiadau neu drefniadau mynediad arbennig sy'n ymwneud â'r safle yn eich dogfen gofrestru.

Os ydych yn trefnu cyfarfod aelod o dîm CDC ar y safle, sylwer bod rhaid i drafodaeth gael ei gyfyngu i egluro'r deunydd cyn yr adolygiad, ac NID ceisio dyfalu yn y cyfarfod adolygu neu wneud achos hyrwyddo ar gyfer y cynllun.

## 3.4

### Y cyfarfodydd adolygu

Fel arfer, mae cyfarfodydd y Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau yn cael eu cynnal yn swyddfa CDC yn Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, a lle bo modd, mewn lleoliadau eraill ar draws Cymru gan gynnwys lleoliadau ar, neu'n agos at y safle dan ystyriaeth.

Byddwn yn anfon agenda, gwybodaeth am y lleoliad ac amseroedd y cyfarfodydd atoch chi ymlaen llaw. Os ydych yn teithio i swyddfeydd CDC yn Sgwâr Mount Stuart, dylech ganiatáu digon o amser i gerdded o Orsaf Reilffordd Bae Caerdydd, neu i barcio ar y stryd neu mewn meysydd parcio gerllaw.

Gall hyd y cyfarfod amrywio o awr a hanner i hanner diwrnod, yn dibynnu ar anghenion a maint y cynllun. Byddwn yn trefnu hyn gyda chi ymlaen llaw.

Gall cyfarfodydd gael eu cynnal mewn ffyrdd gwahanol, ac efallai y bydd rhai yn cael ei strwythuro yn debyg i weithdai. Bydd yr holl gyfarfodydd yn canolbwyntio ar gyfrannu arbenigedd a siapiaio deialog adeiladol.

Fel arfer, mae NSIPs yn elwa o ymgysylltu'n gynnar a dros amser hirach gyda CDC dros dair neu bedwar cyfarfod yn ystod cyfnodau ymgynghori cyhoeddus, cyn cyflwyno'r GDC (Gorchymyn Datblygu Cydsyniad) i'r Arolygiaeth Gynllunio.

---

Ar gyfer NSIPs, mae CDC hefyd yn cofrestru gyda PINS fel parti â diddordeb, a bydd yn cyfathrebu'n uniongyrchol gyda'r Arolygiaeth, yn ogystal â'r tîm datblygu ac / neu awdurdod lleol a phartïon eraill a rhanddeiliaid â diddordeb.

### 3.5

#### Polisi canslo

Mae proses baratoi CDC ar gyfer ymgynghori trwy'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau yn ddwys ac yn gofyn am swm sylweddol o adnoddau, gwaith papur a chytuno ar ymrwymïadau dyddiadur llawer o weithwyr proffesiynol.

Am y rheswm hwn, unwaith y byddwch wedi cadarnhau, os ydych yn dymuno canslo, rhaid i chi ganslo cyn y dyddiad cau o bythefnos cyn yr adolygiad.

Byddwn yn ceisio ail-drefnu cyfarfodydd, ond dim ond os byddwn yn cael gwybod am newidiadau neu os ydych yn canslo cyn y dyddiad cau.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi am y dyddiad cau pan fyddwn yn cadarnhau'r trefniadau gyda chi.

Os byddwch yn canslo ar neu ar ôl y dyddiad cau, byddwch yn gorfod talu tâl gweinyddol o £350.

---

## 4

# Paratoi ar gyfer cyfarfodydd adolygu dyluniadau

### 4.1

## Deunyddiau y gofynnir amdanynt ymlaen llaw

Pwrpas cyflwyno deunyddiau i'r Comisiwn cyn y cyfarfodydd adolygu, yw galluogi tîm CDC i ddeall ac ystyried y cynllun a'i chyd-destun, er mwyn gwybod cymaint ag y bo modd am y cynigion cyn y cyfarfod. Mae'r ddealltwriaeth hon yn ddefnyddiol ar gyfer ein hymweliad safle ac yn cyfrannu at drafodaeth adeiladol, fanwl yn y cyfarfod adolygu.

Bydd y deunydd a'r wybodaeth sydd yn cael eu rhoi gennych yn adlewyrchu cam datblygu eich prosiect. Rydym yn deall y gall cynlluniau aros yr un fath a bod yn amodol ar newid. Fodd bynnag, dylai deunydd gyfathrebu hanfodion y prosiect a'r dull a ddefnyddir yn glir.

Dylai'r deunydd fod yn gryno ond yn ddigonol i ganiatáu dealltwriaeth lawn ac asesiad o'r cynllun. Dylai'r wybodaeth gynnwys:

- Amlinelliad o weledigaeth, amcanion a briff y prosiect.
- Cynllun o'r lleoliad (i hwyluso ymweliad safle) a chynlluniau presennol o'r safle.
- Dadansoddiad perthnasol o'r safle a'i gyd-destun (mynediad a thrafnidiaeth gyhoeddus, triniaethau ffiniol, adeiladau presennol, golygfeydd, llwybr haul, cyfeiriad y gwynt).
- Cynlluniau, adrannau a drychiadau ar gyfer yr adeiladau arfaethedig gan gynnwys cynllun safle arfaethedig yn dangos cyd-destun. DS Dylai pob dyluniad ddangos y pwynt gogleddol yn glir.
- Datganiad Dylunio a Mynediad (DDM) drafft clir, cryno ac yn ddelfrydol, gweledol a diagramatig.

Cydnabyddir y bydd y lefel a'r math o wybodaeth yn amrywio yn dibynnu ar faint a natur y cynllun ac felly, gallai amrywio o'r hynny a restrir uchod, ond mae hyn yn cael ei ddarparu fel canllaw.

Byddwn angen tri chopi caled ac un copi electronig o'r wybodaeth cyn yr adolygiad.

Bydd angen i chi sicrhau bod yr holl ddeunydd cyn yr adolygiad yn cyrraedd CDC 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod.

Byddwn yn cadarnhau'r dyddiad erbyn pryd y mae angen yr wybodaeth hon pan fyddwn yn cadarnhau dyddiad ac amser eich cyfarfod.

## Beth fyddwch chi eu hangen ar y diwrnod

Ar ddiwrnod y cyfarfod, bydd angen i chi egluro cam presennol y ceisiadau datblygu yn glir ac yn gryno.

Bydd faint o amser y bydd gennych i wneud hyn yn amrywio, yn dibynnu ar yr amser yr ydym wedi ei neilltuo ar gyfer eich ymgynghoriad, a byddwn wedi anfon agenda atoch sy'n dangos yr amseroedd manwl hyn i chi.

Rydym yn sylweddoli y gallai llawer o ddatblygiadau gael eu gwneud rhwng cyflwyno deunydd cyn yr adolygiad a'r cyfarfod ei hun, felly dylech geisio diweddarau CDC, a nodi meysydd sydd wedi newid neu sydd wedi gwneud cynnydd.

Mae croeso i chi ddefnyddio byrddau neu daflenni (bydd CDC yn darparu îs) neu gyflwyniad PowerPoint neu PDF.

Bydd ein cyfrifiadur/gliniadur a'n hoffer taflunio yn cael eu gosod yn barod, a dim ond USB fyddwch chi ei angen. Mae croeso i chi anfon y cyflwyniad atom yn electronig hefyd, fel y gallwn lwytho hwn ymlaen llaw ar eich cyfer cyn y cyfarfod. Mae croeso i chi ddefnyddio e-bost (hyd at 9Mb), Dropbox neu raglen rhannu ffeiliau cyffredin arall.

Croesewir modelau corfforol, ac maen nhw'n arbennig o ddefnyddiol i gyfleu graddfa, crynswth ac effaith leol. Does dim angen iddynt fod yn gymhleth, ac rydym yn croesawu modelau gweithio. Ni allwn storio'r rhain, felly dewch â nhw gyda chi ar y diwrnod.

*Noder: Mae gennym risiau mynediad ar y llawr gwaelod, mynedfa hygyrch amgen, liffth rhestredig Gradd II a drysau lled safonol i'n swyddfa. Cofiwch gadw hyn mewn cof os ydych yn cludo modelau.*

Ni ddylid dibynnu ar animeiddiadau neu 'fly-throughs' fel y prif ddeunydd ar gyfer y cyfarfod, a dylai'r tîm dylunio wirio eu bod yn gydnaws â'r offer cyfrifiadurol yn y Comisiwn Dylunio ymlaen llaw.

## Pwy ddylai fynychu?

Mae'n fwyaf buddiol os bydd y cleient, aelodau allweddol o'r tîm dylunio, yr awdurdod lleol, ymgynghorydd cynllunio a rhanddeiliaid perthnasol eraill yn fynychu'r adolygiad.

Bydd CDC, lle bo'n briodol, yn gwahodd arweinydd strategol neu swyddog achos yr awdurdod lleol i'r cyfarfod, ac yn gofyn iddynt ddarparu briff ysgrifenedig o'r cyd-destun cynllunio ymlaen llaw, fel ein bod yn ymwybodol o'u barnau ac unrhyw bryderon, cyn y cyfarfod.

---

Fel arfer, bydd pedwar neu bum cynrychiolydd o banel adolygu dyluniadau CDC yn bresennol, gan gynnwys o leiaf un o'n Cynghorwyr Dylunio o'n tîm o staff. Bydd gan bawb sy'n mynychu arbenigedd perthnasol i'w gyfrannu, a bydd un person wedi cynnal ymweliad safle ac yn 'arwain' y drafodaeth.

Mae hefyd yn arferol i Brif Weithredwr CDC fod yn bresennol ac weithiau, gallai arsylwyr fod yn bresennol. Mae gan CDC brotocolau cadarn ar gyfer arsylwyr sy'n berthnasol ar gyfer yr holl brosiectau, yn enwedig os yw timau wedi gofyn am ymgynghoriad cyfrinachol, cyn cynllunio cais.

#### 4.4

### Sut fydd y cyfarfod yn cael ei strwythuro?

Byddwch wedi cael gwybod ymlaen llaw am yr amseroedd ar gyfer eich cyfarfod. Ym mhob achos, ffocws clir a diweddariad cryno ar agweddau hanfodol ar y cynllun sydd bwysicaf yn rhan gyntaf y cyfarfod.

Mae'r pwyntiau canlynol yn tynnu sylw at feysydd hanfodol i'w trafod:

- Lle bo'n berthnasol, sut mae'r prosiect yn cyd-fynd â strategaeth adfywio ehangach ac / neu weledigaeth strategol neu brif gynllun
- Amlinelliad cryno o friff ac amcanion y prosiect
- Dadansoddiad perthnasol o'r safle a fwriedir a'i gyd-destun, yn dangos sut mae hyn wedi llywio'r dull dylunio
- Disgrifiad bras o'r cais dylunio, ei ddyluniad trefol a thirwedd, a'i strategaeth gynaliadwyedd
- Manylion y cynllun fel y bo'n briodol ar gyfer y cyfnod dylunio cyfredol

Yna, bydd yr awdurdod cynllunio lleol, os yn bresennol, yn cael eu gwahodd i roi sylwadau.

Nod y Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau yw hybu trafodaeth rhwng CDC a thîm y prosiect, gan ganiatáu trafodaeth adeiladol ond gonest ar sail gwybodaeth gan y ddwy ochr am ddatblygiad, cyfyngiadau cynllunio, dulliau dylunio, cyfyngiadau ariannol ac arferion caffael. Mae'r drafodaeth o reidrwydd yn drwyadl, ac yn yr amser byr sydd ar gael weithiau, mae ein cyfraniadau, sylwadau a'n gwerthusiad yn debygol o fod yn syth at y pwynt, yn gadarn ac yn dreiddgar, eto yn adeiladol ac yn gwrtais ar yr un pryd.

Byddwn yn gofyn cwestiynau ac yn cyfrannu at y drafodaeth o gwmpas y cynlluniau, modelau neu ddeunydd gweledol eraill. Wrth gau'r drafodaeth, bydd y Cadeirydd yn ceisio crynhoi'r pwyntiau allweddol.



---

4.5

## Sylwadau ysgrifenedig

Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i dîm y prosiect y bydd sylwadau CDC yn cael eu gosod allan yn ysgrifenedig, ac y byddant yn eu cyrraedd o fewn 10 - 14 diwrnod gwaith. Bydd y dilyniant hwn ar bapur yn distyllu ac yn gyfystyr â sylwadau swyddogol y Comisiwn, a bydd yn rhoi pwyslais ar y meysydd sydd fwyaf pwysig o ran datblygu'r cynllun.

*Noder: Ni ddylai'r adroddiad ysgrifenedig gael ei drin fel set o gofnodion cyfarfodydd. Bydd mor fyr ag y bo modd, mewn iaith glir ac yn pwysleisio materion allweddol oedd yn deillio o'r drafodaeth.*

Bydd yr adroddiad yn cael ei osod yn y fath fodd ag i fod yn ddefnyddiol i'w ystyried a'i ddefnyddio gan bob parti, gan gynnwys y cyhoedd ehangach a rhanddeiliaid eraill, Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r Arolygiaeth Gynllunio.

4.6

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw'r Comisiwn yn cynnig dadansoddiad o p'un a ddylid rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer cais. Mae hwn yn fater sy'n briodol i gylch gwaith yr Awdurdodau Cynllunio Lleol. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn gofyn cwestiynau, gwneud sylwadau neu fynegi barn ar faterion o'r fath, gan gynnwys y cyd-destun cynllunio, perthynas â pholisi a chyfarwyddyd cynllunio lleol a chenedlaethol, ac ansawdd y cais. Mae'r sylwadau hyn yn cael eu cydnabod fel ystyriaethau perthnasol yn y broses gynllunio.

Os am unrhyw reswm, nad yw CDC yn dymuno bod yn rhan o'r prosiect y mae wedi ymgynghori arno, bydd yn dweud hynny yn ysgrifenedig. Mewn achosion o'r fath, nid oes angen i CDC ymgynghori yn ffurfiol eto fel rhan o'r broses gynllunio. Ym mhob achos arall, dylai Comisiwn Dylunio Cymru gael ei hysbysu pan fydd cais cynllunio yn cael ei gyflwyno.

Mae sylwadau'r Comisiwn yn gyfystyr â'i farn annibynnol, arbenigol ar yr adeg yr ymgynghorwyd arno ac ar sail y deunydd sydd ar gael.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r sylwadau hynny yn cael eu cyhoeddi ar unwaith drwy wefan y Comisiwn, cyfryngau cymdeithasol, datganiadau i'r wasg a llwyfannau eraill. Mae'r Comisiwn yn sylwebu yn y ffordd hon at ddibenion cofnod cyhoeddus ac er budd y cyhoedd.

Mae'r Comisiwn hefyd yn cydnabod bod llawer o benderfyniadau pwysig sy'n dylanwadu ar brosiectau yn cael eu gwneud ar y camau cynharaf, ymhell cyn negydiadau cynllunio manwl, trafodaethau a chyflwyniadau cynllunio amlinellol.

Mae'n bwysig felly, yr ymgynghorir â'r Comisiwn yn ystod y camau cynnar hyn ac efallai y byddwn ar adegau, yn cynnig prosiectau sydd ddim yn y parth cyhoeddus eto, cyfarfod cyfrinachol neu gyfres o gyfarfodydd, hyd nes y daw'n gyhoeddus. Byddwn yn gwneud hyn ar sail achos wrth achos ac er mwyn gwarchod buddiannau'r tîm dylunio, a'u galluogi i archwilio gwahanol syniadau a dulliau gyda ni ar gam cynnar. Ym mhob achos, fodd bynnag, bydd Comisiwn Dylunio Cymru yn rhoi gwybod am ei farnau i'r Awdurdod Lleol a lle bo'n briodol, i gyrrff cyhoeddus eraill.

Mewn achosion ble mae'r ymgeisydd neu eraill yn rhoi cyhoeddusrwydd neu yn hyrwyddo'r prosiect drwy argraffiadau artist, ddelweddau eraill neu sylwadau llafar, neu trwy ddyfynnu sylwadau'r Comisiwn cyn i gais cynllunio gael ei gyflwyno, bydd CDC hefyd yn gwneud ei farn yn gyhoeddus.

Pan fydd cais cynllunio wedi ei gyflwyno, bydd CDC yn cyhoeddi ei farnau ar y cynllun i'r cyhoedd drwy ei sianeli cyfryngau cymdeithasol, gwefan, a / neu drwy lwyfannau'r wasg. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau sydd wedi cael eu hystyried mewn hyder gan y Comisiwn cyn bod cais cynllunio yn cael ei gyflwyno, ond a ddaw wedyn, yn gyhoeddus, drwy gyflwyno cais cynllunio. Yn yr achos hwn, bydd yr adroddiad Adolygu Dyluniadau yn cael ei gwneud yn gyhoeddus ar yr amod ei fod yn berthnasol i'r cynllun ar yr adeg y cafodd ei adolygu. Os yw cynllun wedi newid yn sylweddol, dylai'r tîm roi gwybod i CDC am natur y newidiadau neu ddod yn ôl ar gyfer ymgynghoriad pellach.

Bydd CDC yn storio ac yn gwneud copïau o ddeunydd cyflwyno ar gyfer prosiect sydd yn cael ei ystyried.

O bryd i'w gilydd, bydd CDC yn tynnu lluniau mewn cyfarfodydd a gweithdai'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau, er mwyn darparu deunydd gweledol i'w cyhoeddi yn ei lenyddiaeth, astudiaethau achos ac / neu ar gyfer dibenion eirioli addysgol, lledaenu neu eraill.

Os digwydd nad yw deunyddiau a delweddau eisoes yn y parth cyhoeddus, bydd CDC yn gofyn caniatâd y partion perthnasol cyn cyhoeddi unrhyw luniau, a bydd yn esbonio ei resymau dros eu defnyddio. Ni fydd CDC yn cyhoeddi unrhyw ddeunydd heb ganiatâd, cyn i'r prosiect ddod i mewn i'r parth cyhoeddus.

Mae CDC yn cydymffurfio â chyfraith hawlfraint fel y mae'n gymwys yng Nghymru a Lloegr, ac nid yw'n ecsbloetio lluniau a gasglwyd yn y modd hwn er budd masnachol.

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn tynnu ar, ac yn cyhoeddi trosolwg a gwersi o'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau. Mae hyn yn aml yn golygu bod angen defnyddio lluniau o ddeunydd a gyflwynwyd ar gyfer cyfarfodydd adolygu. Bydd deunydd o'r fath ond yn cael eu cyhoeddi gyda chaniatâd y perchnogion, a bydd y Comisiwn yn gofyn am ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.

## Gweithdrefnau 'galw i mewn' Llywodraeth Cymru ac Ymholiadau Cynllunio Arolygiaeth Gynllunio Cymru a Lloegr

Beth bynnag yw sefyllfa CDC ar geisiadau perthnasol, dylai awdurdodau lleol roi gwybod i CDC os yw'r ceisiadau hynny yn destun gweithdrefn 'galw i mewn' gan Lywodraeth Cymru, neu'n destun Apêl Cynllunio, gan y gallai Comisiwn Dylunio Cymru ddymuno tynnu sylw at faterion penodol y gellid eu hystyried yn ystod proses galw i mewn, neu ddarparu tystiolaeth mewn ymchwiliad.

Mae sylwadau CDC yn cynrychioli 'ystyriaethau perthnasol' yn y broses gynllunio. Mae ein hadroddiadau ysgrifenedig yn cael eu cydnabod fel bod yn awdurdodol gan yr Arolygiaeth Gynllunio, a gellir cyfeirio atynt neu eu cynnwys mewn tystiolaeth a gyflwynir mewn ymchwiliad. Mewn rhai amgylchiadau, bydd y Comisiwn yn cael ei gynrychioli ac / neu, yn rhoi tystiolaeth mewn gwrandawriad apêl yn ei swyddogaeth fel corff arbenigol annibynnol. Ni fydd y Comisiwn yn ymddangos ar ran apelydd neu awdurdod cynllunio lleol.

Mae CDC yn ffodus i elwa o arbenigedd ymarferwyr o ystod eang o broffesiynau amgylchedd ac eiddo adeiledig. Cydnabyddir y gall cael arbenigedd o'r fath arwain at wrthdaro buddiannau posibl a / neu ganfyddiadau o wrthdaro o'r fath.

Fel corff cenedlaethol sy'n derbyn arian cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru, mae Comisiwn Dylunio Cymru yn cymryd ei gyfrifoldebau tuag at gywirdeb cyhoeddus yn ddifrifol iawn, ac yn sicrhau bod unrhyw wrthdaro yn cael eu nodi, eu datgan a'u cofnodi yn gynnar, a bod camau priodol yn cael eu cymryd i ymdrin â hwy.

Mae'n ofynnol i'r Cadeirydd, Comisiynwyr, Staff a'r panel Adolygu Dyluniadau ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fusnes a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau.

Mae CDC yn cadw Cofrestr o Fuddiannau sy'n briodol i weithgareddau'r Comisiwn, sy'n rhestru diddordebau uniongyrchol ac anuniongyrchol y gallai aelodau o'r cyhoedd feddwl yn rhesymol allai ddylanwadu ar eu barn.

Mae Comisiynwyr ac aelodau'r panel Adolygu Dyluniadau yn diweddarau eu cofrestr yn flynyddol ac wrth i newidiadau ddigwydd, mae cofrestr CDC o fuddiannau ar gael i'r cyhoedd.

Yn ychwanegol at y cofnod cyhoeddus o ddiddordebau, mae'n rhaid i Gomisiynwyr ac aelodau o'r panel Adolygu Dyluniadau sicrhau bod:

- Datganiadau agored o unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n codi yn yr amser rhwng datganiadau blynyddol, yn cael eu cofnodi yng nghofrestr CDC. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt gael eu datgan unwaith y byddant yn codi
- Gwahoddiadau neu fwriadau i ymuno â sefydliadau eraill ym mha bynnag gapasiti, yn cael eu datgan cyn gynted ag y maent yn digwydd
- Rhaid i ddatganiadau gael eu gwneud ynglŷn ag unrhyw berthynas uniongyrchol neu anuniongyrchol ag unrhyw gwmni, unigolyn, asiant neu barti arall sy'n ymwneud â chyflwyno prosiect i'r Comisiwn. Rhaid datgan hefyd, gwybodaeth am, neu ran yn yr un prosiect, neu un ar yr un safle ar gyfer cleient arall. Mae datganiadau o'r fath yn cael eu cofnodi yn yr adroddiad Adolygu Dyluniadau. Os bernir bod achos o wrthdaro buddiannau yn bodoli, yna mae'n rhaid i'r aelod o'r panel dynnu allan o'r cyfarfod
- Ni ddylai gwybodaeth a gafwyd gan aelodau o dîm CDC a'r panel, yn ystod eu gwasanaeth gael ei defnyddio at ddibenion personol neu wleidyddol, i elwa'n ariannol neu'n anariannol, ac ni ddylai aelodau Panel, staff neu Gomisiynwyr geisio defnyddio'r cyfle i hyrwyddo buddiannau preifat unigolion, cwmnïau, busnesau neu sefydliadau cysylltiedig eraill.

---

## Os hoffech ragor o wybodaeth am y Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau, cysylltwch â:

— Comisiwn Dylunio Cymru / Design Commission for Wales  
4ydd Llawr, Adeiladau Cambrian  
Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FL

— +44 (0) 29 2045 1964

— [connect@dcfw.org](mailto:connect@dcfw.org)

— [www.dcfw.org](http://www.dcfw.org)

### Atodiadau

Cyfeiriadau ac Adnoddau

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Gorffennaf 2014)

<http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy>

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: Dylunio (2014)

<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan12/?lang=cy>

Canllaw Ymarferol: Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy

<http://gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/practice-guidance-planning-for-sustainable-buildings/?skip=1&lang=cy>

Canllaw Ymarferol: gwireddu potensial trafodaethau cyn gwneud ceisiadau cynllunio

<http://gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/preappguide/?skip=1&lang=cy>



DESIGN  
COMMISSION  
FOR WALES  
COMISIWN  
DYLUNIO  
CYMRU